

## BEYNON, ROBERT (1881 - 1953), gweinidog (MC), bardd ac ysgrifwr

**Enw:** Robert Beynon  
**Dyddiad geni:** 1881  
**Dyddiad marw:** 1953  
**Priod:** Sarah Rebecca Beynon (née Thomas)  
**Rhiant:** Anne Beynon  
**Rhiant:** Thomas Beynon  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC), bardd ac ysgrifwr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 8 Hydref 1881 yn yr Offis, Pontyberem, Sir Gaerfyrddin, mab Thomas ac Anne Beynon. Dechreuodd bregethu yn eglwys Soar, ac addysgwyd ef ar gyfer y weinidogaeth yn ysgol [Walcyn Wyn](#) yn Rhydaman, ysgol Pontypridd, Coleg y Brifysgol, Caerdydd (lle graddiodd yn B.A.), a'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth. Ordeinwyd ef yn 1911, a bu'n bugeilio eglwys Carmel, Aber-craf, ym mhen uchaf dyffryn Tawe ar hyd ei oes (1910-53). Priododd Sarah Rebeca Thomas o Drehopcyn, ger Pontypridd, a chafwyd dwy ferch o'r briodas (un yn fabwysiedig).

Fel un o 'fechgyn' [Walcyn Wyn](#) ymddiddorodd Beynon mewn barddoni, a chyhoeddwyd un o'i bryddestau cadeiriol, Tyred, canlyn Fi, yn 1912. Enillodd goron Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1922 am ei bryddest i'r 'Tannau coll'. Ceir rhai o'i emynau i blant yn *Llyfr emynau a thonau'r plant* (1947). Y mae cryn gamp llenyddol ar ei ysgrifau, a gyhoeddwyd yn 1931 dan y teitl *Dydd Calan ac ysgrifau eraill* (ail arg. 1950); a daeth ei athrylith fel ysgrifwr i'r golwg drachefn pan oedd yn olygydd *Y Drysorfa* (1939-43). Cyhoeddwyd hefyd ei *Detholiad o Lyfr y Salmau* (1936), a ddengys yr un gelfyddyd fel llenor caboledig. Ef, a Rhys Davies (un o flaenoriaid Carmel), oedd awduron y gyfrol *Hanes Carmel, Abercrâf* (1921).

Yr oedd yn bregethwr poblogaidd iawn yn y de a'r gogledd, a dotiai'r cynulleidfaoedd ar bertrwydd ei ymadroddion a'i ddywediadau bachog a disglair. Ar gyfrif hynny y mae'n siwr y penodwyd ef i draddodi'r Ddarlith Davies ar 'Y ffordd dra rhagorol' yn 1948; ond nis cyhoeddodd. Etholwyd ef hefyd yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1952), ond bu farw, ym mlwyddyn ei lywyddiaeth, ar 12 Chwefror 1953. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Carmel, Aber-craf.

### Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calфинаidd*, 1954, 222

T. Beynon, *Allt Cunedda, Llechdwnni a Mwdllwscwm* (Aberystwyth 1955), 129

gwybodaeth gan ei dylwyth ym Mhontyberem

Adnabyddiaeth bersonol

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [2235344](#)

Wikidata: [Q20748871](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

